# Glanhau a thrin ceffylau ar gyfer ymddangosiad

SAFONAU GALWEDIGAETHOL CENEDLAETHOL

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â glanhau a thrin ceffylau ar gyfer ymddangosiad.  Gall hyn gynnwys gwneud ceffylau yn ddeniadol i'w gwerthu. Fel rhan o'u trin, bydd angen i chi wirio carnau'r ceffyl.

Byddai'r gwaith a ddisgrifir yn y safon hon yn cael ei wneud yn dilyn cytundeb gyda goruchwylydd am gyfrifoldebau a dulliau gweithio.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

Bydd angen i chi allu adnabod peryglon yn y gweithle.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd, yn unol â'r cyfarwyddiadau
2. dewis a defnyddio offer trin yn ddiogel ac yn gywir
3. mynd at y ceffyl yn unol â'r cyfarwyddiadau ac mewn ffordd sy'n lleihau straen ar y ceffyl, a pherygl i chi eich hun ac i eraill
4. glanhau a thrin ceffylau ar gyfer ymddangosiad yn effeithiol ac yn gywir
5. golchi a sychu ceffylau yn unol â'r amodau a'r gofynion
6. cydnabod ac adrodd pan fydd angen twtio neu ail-bedoli carnau ceffyl
7. glanhau offer ar ôl ei ddefnyddio a'i storio yn y man dynodedig
8. cynnal eich iechyd a'ch diogelwch chi ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. sut i fynd at geffylau mewn ffordd briodol er mwyn lleihau straen a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. technegau trin a'r defnydd cywir o'r offer trin llawn
4. rhesymau dros ac egwyddorion glanhau a thrin ceffylau, yn cynnwys iechyd a hylendid
5. y weithdrefn ar gyfer golchi a sbwnjo ceffylau budr a'u sychu
6. sut i adnabod pan gall fod angen sylw ar garnau ceffyl a'r camau i'w cymryd
7. y mathau o broblemau a allai ddigwydd gydag esgidiau'r ceffyl a'r camau i'w cymryd
8. peryglon i geffylau, i chi eich hun ac i eraill a sut y gellir lleihau'r peryglon hyn
9. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

## Cwmpas/Ystod

Glanhau a thrin ceffylau:

- rhoi bath i geffyl a'i sychu
- trin ceffyl ar gyfer ymddangosiad cyhoeddus

# Glanhau a thrin ceffylau ar gyfer ymddangosiad

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq207 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffyl; ceffylau; glanhau; trin; stablau; iard; iechyd a lles anifeiliaid |